**EITEM AGENDA 10**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15 Mawrth 2010**

**FFIGURAU ALLDRO AMODOL 2009-2010**

**Adroddiad gan Ken Finch, y Trysorydd**

## Pwrpas yr Adroddiad

1 Pwrpas yr adroddiad yw rhoi amcangyfrif i Aelodau o'r alldro amodol ar gyfer blwyddyn ariannol 2009-2010.

## Cyflwyniad

2 Caiff gwariant yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n agos gan staff y Gwasanaeth Tân ac Achub a thynnir sylw at unrhyw amrywiant disgwyliedig mor fuan â phosibl fel bod modd gweithredu camau i sicrhau nad oes unrhyw risg ariannol i'r Awdurdod. Ar hyn o bryd mae'n ymddangos y bydd £3,477 o orwariant. Mae'r dadansoddiad manwl yn Atodiad a dangosir unrhyw danwariant ag arwydd minws (-).

3 Mae amcangyfrif y gorwariant yn isel o'i gymharu â'r gyllideb o £31million a gellir ei reoli o fewn yr adnoddau presennol. Argymhellir felly bod yr aelodau'n nodi'r gorwariant yn unig. Dylai'r aelodau gofio hefyd fod y ffigyrau terfynol yn seiliedig ar lefelau gweithgarwch presennol, sy'n gymharol isel, ond petai nifer o ddigwyddiadau mawr ym mis Mawrth, yna, mae'n bosibl y bydd y gorwariant yn cynyddu i fod yn ddiffyg cyllidebol sylweddol.

## Amrywiant y Gyllideb

4 Mae cyfran helaeth o wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymwneud â thâl ac mae rhagolygon y bydd tanwariant net yn y maes hwn eleni. Gellir priodoli'r tanwariant hwn ar ddiffoddwyr tân amser llawn i'r ffaith fod y dyfarniad cyflog yn llai na'r hyn a gyllidwyd ar ei gyfer, 1.25% yn hytrach na'r 2.5% a gyllidwyd.

5 Gellir priodoli’r tanwariant ar ddiffoddwyr tân wrth gefn hefyd i’r dyfarniad cyflog is na’r hyn â gwlybedd a lefel isel gweithgarwch hyd yn eleni.

6 Cytunwyd ar 1% fel dyfarniad cyflog ar gyfer staff gwasanaethau llywodraeth leol ar gyfer 2009/10 a chafodd ei gynnwys yn y ffigyrau. Un o’r rhesymau dros y gorwariant yw uwchraddio dros dro wrth ddisgwyl gwerthuso swyddi a chyflogi staff ychwanegol i gynnal y prosiect hwn.

7 Y rheswm dros y gorwariant ar bensiynau yw oherwydd bu’n rhaid talu cymudiadau a thaliadau pensiwn i ddiffoddwyr tân wrth gefn sydd wedi ymddeol oherwydd iechyd gwael yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

8 Mae’r gost ychwanegol o dan Eiddo, Atgyweirio a Chynnal a Chadw, o ganlyniad i’r cynnydd mewn profion trydanol am resymau iechyd a diogelwch. Bu gorwariant hefyd gyda chasglu sbwriel dan y pennawd Eiddo, oherwydd y cynnydd yng nghostau cael gwared â gwastraff masnachol.

9 O dan Cludiant, mae’r tanwariant ar danwydd o ganlyniad i’r gostyngiad bychan mewn prisiau tanwydd o’u cymharu â phrisiau’r llynedd (seiliwyd rhagamcanion y gyllideb ar brisiau tanwydd y llynedd). Mae cost y cynllun prydlesu ceir wedi cynyddu oherwydd diffyg cyllid dechrau’r flwyddyn ariannol.

10 O dan y pennawd Cyflenwadau a Gwasanaethau, bydd y gorwariant mwyaf ar gostau TG a Chyfathrebu o ganlyniad i’r cynnydd mewn costau trwyddedu, uwchraddio rhwydweithiau a gwaith datblygu ar nifer o systemau. Bydd gorwariant hefyd dan y pennawd Gwisgoedd a Londri oherwydd bod costau rheoli cyfarpar diogelu personol yn uwch na’r gyllideb. Y rheswm dros hyn yw bod y cyfarpar yma'n dod i ddiwedd ei oes a bod rhagor o gostau cynnal a chadw. Bydd arbedion dan benawdau eraill yn gwneud iawn am y gorwariant ar Gyflenwadau a Gwasanaethau.

11 Dan Asiantaethau, bu cynnydd gyda chost glanhau adeiladau oherwydd newid manyleb y contractau glanhau

12 Bu cynnydd yng nghostau rheoli cyfleusterau oherwydd y gwaith ychwanegol angenrheidiol i sicrhau bod pob eiddo’n cydymffurfio â gofynion Rheoleiddio llymach.

13 Ni fydd yr incwm llogau cymaint â'r rhagamcanion oherwydd y gostyngiad yn y cyfraddau llog. Ond gwrthbwyswyd hyn gydag arbedion ar Gyllido Cyfalaf yn sgil ad-drefnu rhaglen gyfalaf 2008/2009 ac arbedion ar dalu llogau yn sgil ad-drefnu'r ddyled i'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus

14 Mae'r incwm Cynllunio at Argyfwng yn ad-daliadau oddi wrth y Cynulliad ar gyfer Prosiectau arbennig. Cynyddwyd yr incwm hwn oherwydd arian ychwanegol ar gyfer Hyfforddwr Dimensiynau Newydd.

**ARGYMHELLIAD**

15 Bod yr aelodau'n nodi amcangyfrif y gorwariant.

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU** **ATODIAD A**

**CYLLIDEB 2009/2010**

| Penawdau Pynciol | Cyllideb 2009/2010 £ | Gwir Wariant 28/02/10 £ | Canlyniadau a Ragwelir 2009/2010 £ | Amrywiant Cyllideb 2009/2010 £ |
|---|---|---|---|---|
| **GWEITHWYR** | | | | |
| Prif Swyddogion | 571,981 | 476,630 | 540,000 | -31,981 |
| Diffoddwyr Tân -Llawn Amser | 14,638,863 | 13,060,821 | 14,356,088 | -282,775 |
| Diffoddwyr Tân -Rhan Amser | 4,863,306 | 3,902,609 | 4,535,090 | -328,216 |
| Staff Gwasanaethau Llywodraeth Leol | 2,914,954 | 2,755,215 | 3,046,613 | 131,659 |
| Staff Llywodraeth Leol Gwerthuso Swyddi | 169,195 | 0 | 169,195 | 0 |
| Crefftwyr Peirianyddol | 276,435 | 263,428 | 287,887 | 11,452 |
| Hyfforddiant Swyddogol i'r Staff | 342,000 | 275,373 | 346,356 | 4,356 |
| Costau Adleoli | 20,000 | 15,428 | 19,428 | -572 |
| Hysbysebu | 37,000 | 23,151 | 28,603 | -8,397 |
| Amrywiol (Meddygol, prydlesu ceir) | 38,600 | 48,764 | 56,688 | 18,088 |
| Pensiynau Llywodraeth Leol | 23,500 | 11,153 | 32,481 | 8,981 |
| Pensiynau | 290,200 | 349,154 | 409,066 | 118,866 |
| | | | | |
| **CYFANSWM AR Y GWEITHWYR** | **24,186,034** | **21,181,726** | **23,827,495** | **-358,539** |
| **ADEILADAU** | | | | |
| Cynnal a Chadw | 172,000 | 161,050 | 201,590 | 29,590 |
| Costau Egni (Nwy, Trydan, Olew) | 267,500 | 200,072 | 271,250 | 3,750 |
| Gwasanaethau Dŵr | 62,000 | 27,316 | 66,567 | 4,567 |
| Yswiriant | 34,000 | 36,254 | 36,254 | 2,254 |
| Larwm ac Diogelwch | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trethi Lleol | 479,000 | 479,113 | 479,113 | 113 |
| Nodweddion a Gosodiadau | 5,000 | 6,638 | 8,853 | 3,853 |
| Rhentu Swyddfeydd Rhanbarthol | 44,250 | 37,212 | 43,650 | -600 |
| Rhentu Pencadlys a Rheoli | 114,000 | 81,335 | 111,780 | -2,220 |
| Prosiect y Ddraig Werdd | 9,000 | 1,302 | 3,827 | -5,173 |
| Cyflenwadau Glanhau a Chasglu Sbwriel | 32,000 | 37,487 | 43,742 | 11,742 |
| | | | | |
| **CYFANSWM YR ADEILADAU** | **1,218,750** | **1,067,779** | **1,266,626** | **47,876** |
| **TRAFNIDIAETH** | | | | |
| Prynu Peiriannau ac Offer | 7,500 | 4,095 | 5,802 | -1,698 |
| Trwsio a Chynnal a Chadw | 244,300 | 210,029 | 253,908 | 9,608 |
| Costau Rhedeg | 166,920 | 161,445 | 176,364 | 9,444 |
| Tanwydd | 334,250 | 246,734 | 304,800 | -29,450 |
| Cytundebau Hurio Staff | 162,150 | 152,018 | 170,805 | 8,655 |
| Costau Teithio | 91,500 | 82,588 | 101,700 | 10,200 |
| | | | | |
| **CYFANSWM TRAFNIDIAETH** | **1,006,620** | **856,909** | **1,013,379** | **6,759** |

| Penawdau Pynciol | Cyllideb 2009/2010 £ | Gwir Wariant 28/02/10 £ | Canlyniadau a Ragwelir 2009/2010 £ | Amrywiant Cyllideb 2009/2010 £ |
|---|---|---|---|---|
| **CYFLENWADAU** | | | | |
| Offer Glanhau a Domestig | 5,000 | 4,767 | 5,900 | 900 |
| Offer Swyddfa | 53,500 | 47,257 | 53,500 | 0 |
| Dodrefn | 5,000 | 10,488 | 10,488 | 5,488 |
| Offer Cyffredinol | 3,800 | 2,555 | 3,500 | -300 |
| Offer Gweithredol | 293,400 | 175,979 | 281,580 | -11,820 |
| Offer i'r Ffreutur | 1,250 | 2,034 | 2,200 | 950 |
| Llyfrau/Cyhoeddiadau | 4,500 | 2,810 | 3,900 | -600 |
| Tanysgrifiau | 40,570 | 52,225 | 54,127 | 13,557 |
| Darpariaethau | 16,000 | 15,651 | 19,700 | 3,700 |
| Gwisgoedd a Chostau Golchi Dillad | 225,000 | 195,281 | 267,253 | 42,253 |
| Argraffu a Phapur | 130,000 | 113,265 | 129,924 | -76 |
| Diogelwch Tân Cyffredinol | 134,010 | 123,023 | 145,265 | 11,255 |
| Costau Cyfrifadurol | 562,500 | 563,759 | 628,584 | 66,084 |
| Cyfathrebu | 383,000 | 427,797 | 499,133 | 116,133 |
| Costau Cynhadleddau a Chynhaliaeth - | | | | |
| Cyffredinol | 56,000 | 51,384 | 67,851 | 11,851 |
| Hyfforddiant-Gorsaf Dân Cymunedol y Rhyl | 0 | 11,270 | 14,270 | 14,270 |
| Costau Cynhadleddau a Chynhaliaeth - | | | | |
| Cadeirydd, aelodau ayb. | 2,500 | 1,979 | 4,500 | 2,000 |
| Yswiriant | 265,000 | 280,536 | 313,166 | 48,166 |
| Ffioedd yr Archwilydd | 69,200 | 0 | 71,640 | 2,440 |
| Cynllunio Corfforaethol | 8,000 | 6,910 | 7,410 | -590 |
| Cyfarthrebu Corfforaethol | 114,275 | 101,163 | 134,460 | 20,185 |
| System Gwybodaeth Ddaearyddol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ffioedd Proffesiynol | 17,100 | 14,583 | 24,889 | 7,789 |
| Cyfryngau Archwilio/ Cysylltiadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Diogelwch Tan Cymunedol - Ymddiriedolaeth Elusennol | 35,000 | 35,000 | 35,000 | 0 |
| Pwyllgor - Deunyddiau, Argraffu a Lwfansau | 69,590 | 56,722 | 69,268 | -322 |
| System Gwerthuso Swyddi | 1,000 | 600 | 2,600 | 1,600 |
| | | | | |
| **CYFANSWN Y CYFLENWADAU** | **2,495,195** | **2,297,038** | **2,850,108** | **354,913** |
| **ASIANTAETHAU** | | | | |
| Iechyd Galwedigaethol | 130,000 | 98,120 | 130,720 | 720 |
| Glanhau Adeiladu | 140,000 | 128,222 | 158,313 | 18,313 |
| Cynnal Safleoedd | 14,425 | 24,561 | 26,857 | 12,432 |
| | | | | |
| **CYFANSWM YR ASIANTAETHAU** | **284,425** | **250,903** | **315,890** | **31,465** |

| Penawdau Pynciol | Cyllideb 2009/2010<br>£ | Gwir Wariant 28/02/10<br>£ | Canlyniadau a Ragwelir 2009/2010<br>£ | Amrywiant Cyllideb 2009/2010<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| **COSTAU CEFNOGOL** | | | | |
| Rheoli Cyfleusterau | 107,000 | 0 | 135,359 | 28,359 |
| Swyddog Arolygu/Gwasanaethau Cyfreithiol | 25,000 | 23,924 | 23,924 | -1,076 |
| Trysorydd i'r Awdurdod Tân | 92,000 | 49,270 | 97,240 | 5,240 |
| Gwasanaethau Pensiwn | 22,000 | 30,118 | 30,118 | 8,118 |
| Swyddog Disgyblu | 60,000 | 0 | 0 | -60,000 |
| Deddfwriaeth Cyflogaeth | 40,000 | 10,149 | 65,078 | 25,078 |
| **CYFANSWM Y COSTAU CEFNOGOL** | **346,000** | **113,461** | **351,719** | **5,719** |
| **ARIANNU CYFALAF** | | | | |
| Costau Dyledion | 1,933,024 | 249,454 | 1,673,000 | -260,024 |
| Costau Prydlesu | 369,135 | 233,679 | 408,250 | 39,115 |
| Cynilion Llog y Trysorlys | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM YR ARIANNU CYFALAF** | **2,302,159** | **483,133** | **2,081,250** | **-220,909** |
| | | | | |
| **CYFANSWM GWARIANT** | **31,839,183** | **26,250,949** | **31,706,467** | **-132,716** |
| **-<br>INCWM** | | | | |
| Gwerthiannau | -10,000 | -31,443 | -31,443 | -21,443 |
| Monitro Larymau | -2,120 | -2,897 | -2,897 | -777 |
| Galwadau Gwasanaethau Arbennig | -60,000 | -55,640 | -64,570 | -4,570 |
| Trwyddedi Hydrantau Tan | -35,000 | 0 | -40,000 | -5,000 |
| Cyrsiau Hyfforddiant | -80,000 | -37,400 | -38,293 | 41,707 |
| Rhenti - Mannau ar y Cyd | -10,000 | -17,109 | -17,109 | -7,109 |
| Amrywiol | -20,000 | -11,318 | -33,278 | -13,278 |
| Llog | -200,000 | -24,039 | -27,000 | 173,000 |
| Rhenti - Mannau Awyrol | -30,000 | -24,528 | -32,712 | -2,712 |
| Cynllunio Rhag Argyfyngau | -50,000 | -73,625 | -73,625 | -23,625 |
| Ffioedd Cyfalaf Ad-dalu | -30,500 | 0 | -30,500 | 0 |
| **CYFANSWM YR INCWM** | **-527,620** | **-277,999** | **-391,427** | **136,193** |
| | | | | |
| **GWARIANT NET** | **31,311,563** | **25,972,950** | **31,315,040** | **3,477** |